OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 Rhif 806 (Cy.113) (C.21)

# TIROEDD COMIN, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Tiroedd Comin 2006 (Cychwyn Rhif 3) (Cymru) 2012

*Gwnaed - - - - 9 Mawrth 2012*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r awdurdod gwladol priodol(**1**) gan adran 56(1) o Ddeddf Tiroedd Comin 2006(**2**):

**Enwi a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Tiroedd Comin 2006 (Cychwyn Rhif 3) (Cymru) 2012.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

**Darpariaeth sy'n dod i rym ar 1 Ebrill 2012**

**2.** Mae adran 46 (pwerau sy'n ymwneud â gweithgareddau amaethyddol anawdurdodedig) o Ddeddf Tiroedd Comin 2006 yn dod i rym ar 1 Ebrill 2012.

*Alun Davies*
Y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd, o dan awdurdod y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, un o Weinidogion Cymru.

9 Mawrth 2012

(**1**) *Gweler* adran 61(1) o Ddeddf Tiroedd Comin 2006 am ystyr "*appropriate national authority*". Mae swyddogaethau'r "*appropriate national authority*" yn arferadwy, o ran Cymru, gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**2**) 2006 p. 26.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn cychwyn adran 46 o Ddeddf Tiroedd Comin 2006. Mae'r adran honno yn ymwneud â Gweinidogion Cymru'n rheoleiddio gweithgaredd amaethyddol anawdurdodedig.

Pan fo'n ymddangos i Weinidogion Cymru fod person yn gwneud (neu'n achosi gwneud) gweithgaredd amaethyddol anawdurdodedig penodol ar dir sydd wedi ei gofrestru fel tir comin / maes y dref neu faes y pentref sy'n ddarostyngedig i hawliau comin, caiff y gweithgaredd amaethyddol anawdurdodedig ei reoleiddio os yw naill ai'n niweidiol i fudd y cyhoedd neu'n niweidiol i fuddiannau'r personau sydd yn meddu ar hawliau naill ai mewn perthynas â'r tir dan sylw, neu'n meddiannu'r tir hwnnw.